

**CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 1) 2021**

1. Ar 15 Mawrth 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Mawrth 2021 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn cael eu rhoi yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 1) 2021".
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 22 Mawrth 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Atodlenni Map AV52

Cynnig i Ddiddymu Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

St Marys Avenue, Y Barri

Ar ochr y de-orllewin, o bwynt 1.9 metr i'r gogledd-orllewin o'r ffin rhwng eiddo rhifau 2 a 4 tua'r gogledd-orllewin am 10 metr.

Cynnig i Ddiddymu'r Gwaharddiad Aros, dydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am tan 6pm, 2 awr, dim dychwelyd o fewn 2 awr ac eithrio Deiliaid Trwydded

Preswlydd

St Marys Avenue, Y Barri

Ar ochr y de-orllewin, o bwynt 7.1 metr i'r gogledd-orllewin o linell adeiladu ogledd-orllewinol eiddo rhif 2 tua'r gogledd-orllewin am 4 metr.

Dyddiedig 18 Mawrth 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA